# Crynodeb Gweithredol
# Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Medi 2026

Canolbwyntiodd cyfarfod mis Medi ar ddatblygiad VERVE, sef gwasanaeth cymorth integredig mynediad sengl ar gyfer cyffuriau ac alcohol sy'n gweithredu ar draws Abertawe, Castell-nedd a Port Talbot yr Asiantaeth Atal Troseddu Genedlaethol arfaethedig i Gymru gweithredu'r Ddeddf Dedfrydu risgiau sy'n deillio o ddiwygio trefniadau llywodraethu'r heddlu a chydlyniant cymunedol. Drwy gydol y drafodaeth, pwysleisiodd aelodau werth atal cydgysylltiedig, cyllid cynaliadwy, eiriolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gweithio partneriaethol cryf ledled Cymru.

**VERVE: cymorth integredig ar gyfer defnyddio sylweddau**
Amlinellodd Angharad Metcalfe, Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid Defnyddio Sylweddau, gynghrair VERVE, sydd wedi'i chomisiynu ar y cyd gan bartneriaid y sector cyhoeddus a darparwyr y trydydd sector i ddisodli darpariaeth defnyddio sylweddau dameidiog gyda gwasanaeth integredig, hygyrch sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws Abertawe, Castell-nedd a Port Talbot.

Mae'r gwasanaeth yn disodli system dameidiog o gontractau a meini prawf cymhwysedd gyda model cynghrair sy'n cynnwys awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, y Gwasanaeth Tân ac Achub, a phartneriaid y trydydd sector sef Barod, The Wallich, Kaleidoscope ac Adferiad.

Mae'r model yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau, gyda chyd-gynhyrchu wedi'i wreiddio mewn dylunio gwasanaethau, comisiynu, llywodraethu a brandio. Mae ei nodweddion allweddol yn cynnwys allgymorth rhagweithiol, gwasanaethau symudol, llwybrau mynediad lluosog, dull "dim drws anghywir", a chymorth integredig i oedolion, pobl ifanc, teuluoedd, pobl sy'n rhan o'r system gyfiawnder droseddol a phobl sy'n profi digartrefedd. Croesawodd aelodau raddfa'r gwaith partneriaeth sy'n sail i'r rhaglen a'i phwyslais ar leihau niwed, arferion sy'n ystyriol o drawma, lleihau stigma a sefydlogrwydd gwasanaethau tymor hir.

Mae arwyddion cynnar ers i'r gwasanaeth ddechrau gweithredu ym mis Mehefin yn awgrymu gwell hygyrchedd a llwybrau cliriach, er nad oes data canlyniadau ffurfiol ar gael eto. Mae fframwaith canlyniadau yn cael ei ddatblygu, a gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad yn y dyfodol ar yr effaith ac effeithiolrwydd y model cynghrair. Nododd aelodau hefyd risgiau i gynaliadwyedd pe bai cyllid yr heddlu neu bartneriaid eraill yn cael ei leihau yn y dyfodol.

**Polisi cenedlaethol a diwygio cyfiawnder troseddol**
Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad maniffesto i sefydlu Asiantaeth Atal Troseddu Genedlaethol i Gymru. Mae'r ymgysylltu presennol yn mapio gweithgareddau atal presennol ac yn ystyried sut y gallai'r sefydliad arfaethedig wella cydgysylltu a chryfhau'r gwaith o gasglu, dadansoddi a defnyddio data. Mae

trefniadau llywodraethu, cyllido, deddfwriaeth a strwythur sefydliadol yn parhau dan ystyriaeth, ac anogwyd aelodau i gyfrannu tystiolaeth a barn.

Derbyniodd y Bwrdd hefyd ddiweddariad ar y Ddeddf Dedfrydu a'r trefniadau rhyddhau cynnar sydd ar ddod. Croesawodd aelodau ehangu'r troseddau sydd wedi'u heithrio o ddarpariaethau rhyddhau cynnar, ond nodwyd pryderon parhaus ynghylch pwysau ar y gwasanaeth prawf, yr heddlu, iechyd, gwasanaethau gwirfoddol a hyder y cyhoedd. Bydd Pwyllgor Diwygio Cyfiawnder Troseddol newydd yn ystyried effaith gronnol y diwygiadau ledled Cymru.

**Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a diwygio llywodraethu**
Cyflwynodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru dystiolaeth gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau arfaethedig i lywodraethu'r heddlu. Roedd y pryderon yn cynnwys ansicrwydd ynghylch trefniadau cyllido a llywodraethu yn y dyfodol, colli gallu staff posibl, llai o fuddsoddiad mewn atal, pwysau cynyddol ar awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, ac aflonyddwch ehangach i drefniadau partneriaeth sydd wedi hen sefydlu.

Cytunodd aelodau y dylai'r dystiolaeth lywio trafodaethau â'r llywodraeth a llunwyr polisi. Cefnogodd y Bwrdd ddienwio'r adroddiad a'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref, gyda'r canfyddiadau hefyd yn cael eu rhannu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Cydnabuwyd hefyd effaith bosibl newidiadau i gyllid yn y dyfodol ar gynaliadwyedd y Rhwydwaith ei hun.

**Cydlyniant cymunedol**
Trafododd aelodau densiynau parhaus sy'n gysylltiedig â mudo, gwasgaru ceiswyr lloches, troseddau casineb a digwyddiadau rhyngwladol. Ailbwysleisiwyd pwysigrwydd trefniadau cydlyniant lleol cadarn, adnabod risgiau'n gynnar a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. Amlygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) waith parhaus gyda Llywodraeth Cymru, cymunedau ffydd a phartneriaid eraill i roi sicrwydd, herio rhagfarn a sicrhau bod cymunedau'n cael eu diogelu a'u cefnogi. Bydd cydlyniant cymunedol yn parhau fel eitem sefydlog ar yr agenda.

**Prif gamau gweithredu a'r camau nesaf**

- Bydd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn casglu barn aelodau'r Bwrdd ac yn cyfrannu tystiolaeth i gefnogi datblygiad yr Asiantaeth Atal Troseddu Genedlaethol arfaethedig.
- Yn dilyn ymgysylltu pellach, bydd tystiolaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi'i dienwio ynghylch risgiau llywodraethu a chyllido yn cael ei chyflwyno i'r Swyddfa Gartref a'i rhannu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru.
- Monitro gweithrediad y Ddeddf Dedfrydu a'i heffaith ehangach ar ddiwygiadau cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

- Derbyn diweddariad yn y dyfodol ar VERVE, gan gynnwys canlyniadau a thystiolaeth o effaith y model cynghrair.
- Cynnal goruchwyliaeth o risgiau cydlyniant cymunedol a pharhau i rannu gwybodaeth rhwng cyfarfodydd.
- Archwilio trefniadau cynaliadwy ar gyfer Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru a chefnogaeth bartneriaethol ehangach.